

---

## **Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr**

Cynigion cychwynnol – Dull gweithredu ar gyfer  
atebion

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 29 Mawrth 2019

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 7 Mehefin 2019

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

Mae'r galw am gysylltiadau band eang symudol a band eang sefydlog yn prysur gynyddu, gan bobl a chan fusnesau. I ateb y galw hwn, mae angen buddsoddi cryn dipyn i ddiweddarau seilwaith band eang y DU. Bydd angen rhagor o rwydweithiau ffeibr i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau yn y DU, boed hynny'n cefnogi ffeibr mewn band eang mewn cartrefi, cysylltiadau i orsafoedd symudol 5G, neu gysylltedd di-dor i fusnesau. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi dangos cefnogaeth gref i ffeibr llawn, ac mae am weld 15 miliwn o safleoedd yn cael eu cysylltu erbyn 2025.

**Ein nod yw cefnogi buddsoddiad a chystadleuaeth mewn gwasanaethau gwibgyswllt, i gynifer o bobl a busnesau â phosib.** Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom nodi ein strategaeth gyffredinol i gefnogi buddsoddiad a chystadleuaeth mewn gwasanaethau gwibgyswllt.

**Ein strategaeth yw sicrhau buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr gan BT a cwmnïau eraill, drwy hybu cystadleuaeth ar sail rhwydwaith.** Rydym am annog cystadleuwyr BT i greu rhwydweithiau yn hytrach na dibynnu ar fynediad i rwydwaith Openreach. Cystadleuaeth yw'r ffordd orau o sicrhau buddsoddiad parhaus i ddatblygu a chynnal rhwydweithiau telegyfathrebu o safon uchel sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

**Mae sicrhau bod cwmnïau eraill yn cael cyfle teg i fuddsoddi ar gost isel yn hanfodol i'r strategaeth hon.** Mae hyn yn golygu rhoi cyfle iddyn nhw gael yr un manteision â BT o ran ail-ddefnyddio'r seilwaith polion a phibellau presennol ar delerau cyfatebol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy ein hadolygiad o'r farchnad seilwaith ffisegol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein safbwyntiau cychwynnol ar fesurau rheoleiddio ar gyfer marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog cyfanwerthol o 2021 ymlaen. Rydyn ni o'r farn mai'r rhain, ochr yn ochr â chael defnyddio polion a phibellau, fydd y ffordd orau o gyflawni ein strategaeth i sicrhau buddsoddiad drwy hybu cystadleuaeth ar sail rhwydwaith.

### **Beth rydyn ni'n ei gynnig – yn gryno**

Rydyn ni'n cynnig amrywio ein gwaith rheoleiddio mewn tri chategori gwahanol o ardaloedd daearyddol, yn dibynnu ar lefel y gystadleuaeth.

**Mewn ardaloedd cystadleuol**, ni fyddem ni'n rheoleiddio.

**Lle mae rhwydweithiau cystadleuol yn cael eu datblygu neu o bosib yn cael eu datblygu – dwy ran o dair o'r wlad yn fras - rhaid i'r gwaith rheoleiddio sicrhau ein bod yn symud yn ddidrafferth i'r byd newydd.** Mae hyn yn golygu: ystyried gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr a busnesau ar yr un pryd gan fod rhwydweithiau ffeibr newydd yn cefnogi'r ddau; cadw prisiau rheoledig sefydlog a gwastad sy'n cael eu haddasu yn ôl chwyddiant ar gyfer band eang cyflym iawn presennol Openreach, a llinellau ar brydles sy'n caniatáu digon o gyfle i gael cystadleuaeth; dim rheoleiddio prisiau cynnyrch Openreach sydd o ansawdd uwch sy'n defnyddio'r rhwydwaith ffeibr newydd arloesol sydd o werth uwch.

**Ni fydd modd datblygu rhwydweithiau cystadleuol ym mhob man: yn yr ardaloedd hyn – traean olaf o'r wlad – rydyn ni'n cynnig rheoleiddio i ganiatáu adennill costau rhwydwaith ffeibr Openreach yn llawn.** Lle nad oes dim ond un cwmni rhwydwaith dibynadwy, yn aml Openreach, rhaid i unrhyw reoleiddio gefnogi buddsoddiad gan y cwmni hwnnw. I wneud hyn, rydyn ni'n cynnig rheoliadau sy'n seiliedig ar gostau gwirioneddol Openreach, a chaniatáu i Openreach adennill costau rhwydweithiau ffeibr newydd o ystod ehangach o wasanaethau (tebyg i fodel sylfaen asedau rheoledig). Ar yr un pryd, rydyn ni'n cynnig mynediad ar sail costau i ffeibr tywyll Openreach yn yr ardaloedd hyn i hybu cystadleuaeth ar gyfer cwsmeriaid sydd am fentro, a defnyddio capasiti ôl-gludo i gyflwyno gwasanaethau 5G, yn ogystal â pharhau i ddiogelu gwaith rheoleiddio llinellau ar brydles.

**Ym mhob ardal i sicrhau bod Openreach yn darparu gwasanaethau o'r ansawdd mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl**, rydyn ni'n cynnig yn gyffredinol i gadw at ein ffordd bresennol o osod atebion ar gyfer ansawdd gwasanaethau.

**Mae ymyriadau cyhoeddus yn elfen hanfodol i sicrhau bod rhwydwaith ffeibr ar gael i'r DU gyfan** – rydyn ni'n cefnogi uchelgais y Llywodraeth o ran cael ymyriadau uniongyrchol i sicrhau buddsoddiadau mewn ffeibr yn gynnar i ddefnyddwyr a busnesau sydd fwyaf anodd eu cyrraedd.

Wrth i rwydwaith ffeibr Openreach gael ei ddatblygu, **rydyn ni'n cynnig symud cwsmeriaid yn raddol o rwydweithiau copr i rwydweithiau ffibr newydd gan sicrhau bod diogelu defnyddwyr wrth galon y dull gweithredu hwn.** Mae hyn yn golygu cefnogi Openreach i gau'r hen rwydweithiau copr drwy lacio rhai o'r gofynion rheoleiddio presennol sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau copr; a symud rheoliadau (gan gynnwys diogelu prisiau cysylltiedig) o wasanaethau copr i wasanaethau ffeibr.

**Crynodeb syml lefel uchel yw hwn yn unig. Mae'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.**

## Ein strategaeth a manteision rhwydweithiau ffibr

- 1.1 Wrth i'r galw am ddata barhau i gynyddu, ein strategaeth yw sicrhau buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr drwy hyrwyddo cystadleuaeth ar sail rhwydwaith er mwyn i bobl a busnesau allu cael mynediad at y cysylltiadau gwibgyswllt dibynadwy sydd eu hangen arnyn nhw. Bydd technoleg ffibr yn hanfodol i ddarparu band eang gwell i bobl a busnesau, ac i ddarparu cysylltiadau i orsafoedd sylfaen rhwydweithiau symudol 4G presennol a rhai 5G newydd. Mae band eang ffibr yn cynnig cyflymderau uwch na'r gwasanaethau copr, mwy o sefydlogrwydd yn ystod yr oriau brig a chyfraddau is o ran namau.
- 1.2 Rydyn ni'n credu mai cystadleuaeth rhwng gwahanol rwydweithiau yw'r ffordd orau o hybu buddsoddiad mewn gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel a chadw'r prisiau yn isel. Rydyn ni o'r farn bod potensial, dros y pump i ddeng mlynedd nesaf, i gael buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau ffibr newydd gan BT a darparwyr rhwydwaith eraill.
- 1.3 Mae sicrhau bod rhwydweithiau ffibr ar gael yn eang yn gallu arwain hefyd at fwy o fanteision i gymdeithas. Mae'n gallu rhoi hwb i gynhyrchiant a thwf economaidd<sup>1</sup>. Byddai modd sicrhau mwy o arloesi mewn sawl sector hefyd. Er enghraifft: gofal iechyd (e.e. diagnosteg o bell, a allai alluogi llawfeddygon i drin cleifion mewn lleoliad gwahanol), adloniant (yn enwedig gwelliannau mewn rhith-dechnolegau a thechnolegau uwch-realiti) a chludiant (fel cerbydau awtonomaidd).<sup>2</sup>
- 1.4 Rhaid i ni sicrhau nad yw'r buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffibr yn targedu trefi a dinasoedd mawr yn unig, a bod cymunedau llai yn elwa o gysylltedd ffibr hefyd.
- 1.5 Mae llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn gweithio'n ddiwyd hefyd i sicrhau bod band eang cyflym iawn a band eang gwibgyswllt ar gael yn eang. Mae nifer o gynlluniau ar droed neu ar waith ar hyn o bryd sy'n buddsoddi arian cyhoeddus i wella argaeledd, yn enwedig yn ardaloedd gwledig y DU. Ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu ein cynigion, byddwn yn gweithio'n agos â llunwyr polisiâu i roi mewnbwn am y ffordd orau y gall buddsoddiadau cyhoeddus ategu ein gwaith i gynyddu buddsoddiad masnachol.
- 1.6 Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom ni nodi ein cynlluniau i gynnig sicrwydd rheoleiddiol yn y tymor hwy a chefnogaeth ar gyfer buddsoddiad cystadleuol mewn rhwydweithiau ffibr ar draws y DU. Fe ddywedon ni y byddwn, erbyn 2021, yn rheoleiddio marchnadoedd busnes a phreswyl mewn ffordd fwy cyfannol, gan gyfuno ein hasesiadau mewn un adolygiad, a fydd yn para am o leiaf bum mlynedd yn hytrach na thair. Cyn hyn, rydyn ni'n

---

<sup>1</sup> Gweler, er enghraifft, Ofcom (2018), 'The economic impact of broadband': <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/telecoms-research/broadband-research/economic-impact-broadband>

<sup>2</sup> Gweler, er enghraifft, adroddiad WIK 2018 a gomisiynwyd gan Ofcom: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0016/111481/WIK-Consult-report-The-Benefits-of-Ultrafast-Broadband-Deployment.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0016/111481/WIK-Consult-report-The-Benefits-of-Ultrafast-Broadband-Deployment.pdf)

## Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr

bwriadu gweithredu elfennau o'n strategaeth yng nghyd-destun ein hadolygiadau o'r Farchnad Cysylltedd Busnes (BCMR) a'r Farchnad Seilwaith Ffisegol (PIMR).

- 1.7 Rydyn ni'n cydnabod y bydd y buddsoddiad a'r gystadleuaeth yn amrywio yn ôl daearyddiaeth, ac y dylai'r rheoleiddio amrywio yn ôl daearyddiaeth hefyd. Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom nodi ein cynigion cychwynnol ar sut mae diffinio marchnadoedd daearyddol o 2021 ymlaen, yn dibynnu ar lefel y gystadleuaeth mewn gwahanol ardaloedd.

## Ein dull rheoleiddio

- 1.8 Pan fyddwn ni'n cynnal adolygiadau o'r farchnad gyfanwerthol, rydyn ni'n gosod rhwymedigaethau ar ddarparwyr telegyfathrebiadau rydyn ni'n ei ystyried bod ganddyn nhw bŵer sylweddol yn y farchnad. Rydyn ni'n gwneud hyn i hybu cystadleuaeth ac i ddiogelu defnyddwyr yn unol â'n dyletswyddau. Mae ein gwaith rheoleiddio yn edrych i'r dyfodol ('ex-ante'), yn hytrach na dibynnu ar gyfraith cystadleuaeth ôl-weithredol ('ex post') i fynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o ymddygiad a nodwyd.
- 1.9 Yn hanesyddol, mae ein dull o osod rhwymedigaethau rheoleiddio wedi ystyried marchnadoedd preswyl ('mynediad lleol') a busnes ('llinellau ar brydles') mewn adolygiadau ar wahân. Rydyn ni wedi mynnu bod BT, drwy Openreach, yn cynnig cynnyrch cyfanwerthol a oedd yn unigryw i bob un o'r marchnadoedd hyn. Roedd hyn yn adlewyrchu'r disgwyliadau y byddai BT yn dal i gael hyn a hyn o gystadleuaeth rhwydwaith mewn marchnadoedd lle roedd ganddo bŵer sylweddol yn y farchnad, yn ystod y cyfnod yn y dyfodol sy'n cael sylw yn ein hadolygiadau. Ar sail y disgwyliad hwn, fe wnaethom ni ganolbwyntio ar ymyrryd mewn cynnyrch cyfanwerthol gyda'r bwriad o hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd adwerthu.
- 1.10 Mae'r potensial i gael buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau ffeibr dros y blynyddoedd nesaf wedi arwain at nifer o oblygiadau o ran sut rydyn ni'n rheoleiddio cwmnïau.
- Bydd ein gwaith rheoleiddio yn canolbwyntio llawer mwy ar hybu cystadleuaeth drwy annog buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr sy'n cystadlu. Mae hyn yn cynnwys cynnig ymestyn cyfnod ein hasesiadau o'r farchnad o dair blynedd i bum mlynedd er mwyn rhoi mwy o sicrwydd o ran buddsoddwyr.
  - Bydd rhwydweithiau ffeibr newydd yn gallu darparu gwasanaethau ym mhob un o'r marchnadoedd rydyn ni'n eu hadolygu ar wahân ar hyn o bryd. Felly, wrth ystyried a ddylem reoleiddio a sut dylem wneud hynny, nid yw'n briodol mwyach i ganolbwyntio ar bob un o'r marchnadoedd hyn yn unigol. Er enghraifft, bydd camau a gymerir yng nghyswllt gwasanaethau mynediad lleol cyfanwerthol yn arwain at oblygiadau o ran y cymhellion i ddatblygu rhwydweithiau ffeibr newydd a fydd, yn eu tro, yn effeithio ar gystadleuaeth ar gyfer llinellau ar brydles, ac fel arall.

## Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr


- Wrth osod atebion rheoleiddio, rydyn ni'n bwriadu rhoi mwy o sylw i'r gwahaniaethau mewn amodau cystadleuol mewn ardaloedd daearyddol. Mewn ardaloedd gwledig a threfi llai, lle mai hyn a hyn o obaith o gael mynediad sydd gan rhwydweithiau sy'n cystadlu, bydd ein hatebion yn ceisio diogelu'r cymhellion fel bod BT yn buddsoddi mewn gwasanaethau ffeibr.
- Yn groes i hyn, mewn ardaloedd cystadleuol posib, mae'r atebion a gynigiwn yn canolbwyntio mwy ar gymell cystadleuwyr i ddatblygu rhwydweithiau. Diben y rheoliadau a gynigiwn ynghylch mynediad at wasanaethau cyfanwerthol allweddol yw hybu cystadleuaeth drwy sicrhau bod gan y sawl sy'n ceisio mynediad gymhelliant i ddatblygu rhwydweithiau newydd eu hunain a/neu lunio trefniant masnachol â datblygwyr rhwydweithiau eraill, yn hytrach na dibynnu gormod ar brynu gwasanaethau cyfanwerthol sy'n seiliedig ar gost gan BT.
- Caiff ein cynigion ar gyfer atebion cyfanwerthol eu datblygu yng ngoleuni ein cynnig i fynnu bod BT yn cynnig mynediad heb gyfyngiadau i'w rwydwaith o bibellau a pholion, fel y nodir yn ein hymgyngoriad i'r adolygiad o'r farchnad seilwaith ffisegol yn 2018. Rydyn ni'n ystyried y cam hwn yn elfen allweddol yn y gwaith o gyflwyno rhwydweithiau ffeibr cystadleuol. Felly, mewn ardaloedd lle rydyn ni'n credu bod potensial i ddatblygu rhwydwaith, byddwn yn rhoi mwy o bwys ar fynediad i bolion a phibellau yn y pecyn cyffredinol o atebion, nag mewn ardaloedd lle rydyn ni'n credu nad oes llawer o botensial i ddatblygu rhwydwaith.
- A chymryd ei bod yn debygol y bydd BT yn chwarae rôl allweddol wrth fuddsoddi mewn rhwydweithiau ffeibr yn y blynyddoedd nesaf, bydd angen i ni ystyried sut gall y gwaith rheoleiddio gefnogi'r broses wrth i gwsmeriaid symud i'w rwydwaith ffeibr gan fod BT yn bwriadu rhoi'r gorau i ddefnyddio ei rwydwaith copr.

1.11 Yn ein hymgyngoriad ym mis Rhagfyr ar ein dull o edrych ar farchnadoedd daearyddol, fe wnaethom ni nodi ein cynigion cychwynol ar gategoreiddio ardaloedd yn y wlad yn unol â'r amodau cystadleuol sy'n bodoli yn yr ardaloedd hynny. Fe wnaethom gynnis tri chategori o ardal ddaearyddol ar gyfer targedu ein rheoliadau *ex ante*:

- **Ardal ddaearyddol 1 - ardaloedd cystadleuol:** sydd, i bob pwrpas, yn gystadleuol, ac na fyddem yn gosod rheoliadau;
- **Ardal ddaearyddol 2 - ardaloedd cystadleuol posib:** lle mae rhwydweithiau ffeibr heb fod yn rhai BT yn cael eu datblygu, neu fod gobaith rhesymol y byddan nhw'n cael eu datblygu, ac felly mae angen i reoliadau *ex ante* adlewyrchu'r potensial hwn am fuddsoddiad cystadleuol; a
- **Ardal ddaearyddol 3 - ardaloedd nad ydynt yn gystadleuol:** lle rydyn ni'n meddwl na fydd rhwydweithiau ffeibr heb fod yn rhai BT yn cael eu datblygu i raddau sylweddol, ac felly dylai rheoliadau *ex ante* ganolbwyntio ar fuddsoddiad BT.

1.12 Cafodd ein dadansoddiad yn y ddogfen honno ei ddefnyddio i greu'r map canlynol o ardaloedd cystadleuol posib ac ardaloedd nad ydynt yn gystadleuol yn y DU.

Ffigur 1: Map o'r DU sy'n dangos ardaloedd sector cod post sy'n ardaloedd cystadleuol posib ac yn ardaloedd nad ydynt yn gystadleuol (ardaloedd cystadleuol posib yn wyrdd, ddim yn gystadleuol yn frown)



1.13 Rydyn ni wedi dilyn y gwahaniaeth hwn yn yr ymgynghoriad hwn, drwy ystyried pa fesurau sy'n briodol mewn ardaloedd cystadleuol posib ac mewn ardaloedd nad ydynt yn gystadleuol.

## Ein cynigion cychwynol ar gyfer atebion

1.14 Yn y ddogfen hon, rydyn ni'n cyflwyno ein cynigion cychwynol ar gyfer y prif atebion y bydd angen eu gosod ar BT, yn ein barn ni, os gwelir bod ganddo bŵer sylweddol yn y marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog o fis Ebrill 2021 ymlaen.<sup>3</sup> Yn fwy penodol, rydyn ni'n cyflwyno ein cynigion cychwynol sy'n ymwneud â:

- Y gofyniad i ddarparu mynediad rhwydwaith ar gyfer gwasanaethau mynediad lleol cyfanwerthol a gwasanaethau llinellau ar brydles;

---

<sup>3</sup> At ddibenion y drafodaeth yn y ddogfen hon, rydyn ni wedi cymryd bod gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad mewn marchnadoedd mynediad perthnasol. Fodd bynnag, rydyn ni'n dal i ystyried ein dadansoddiad o'r farchnad, a byddwn yn nodi ein cynigion a'n dadansoddiad o'r marchnadoedd mynediad yn ein hymgyngoriad ym mis Rhagfyr 2019, gan gynnwys a ydyn ni'n bwriadu pennu bod unrhyw gwmni â phŵer sylweddol yn y farchnad.



## Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr

- Y dull i osod rheolaethau ffioedd a rheoleiddio prisiau;
  - Y ffordd o sicrhau ansawdd gwasanaeth.
  - Y fframwaith i sicrhau bod defnyddwyr yn symud yn ddiraffferth o rwydwaith copr presennol Openreach i'w rwydwaith ffeibr newydd, fel y gall Openreach roi'r gorau i ddefnyddio ei rwydwaith copr;
- 1.15 Er mwyn sicrhau ansawdd gwasanaeth a symud, rydyn ni o'r farn ar y cychwyn y dylai'r dull a gynigiwn fod yn yr un fath yn yr ardaloedd cystadleuol posib ac yn yr ardaloedd nad ydynt yn gystadleuol, ond rydyn ni'n cynnig amrywio ein dull ar gyfer atebion eraill.
- 1.16 Diben ein cynigion ar gyfer gosod rheolaethau ffioedd yw hybu cystadleuaeth drwy fuddsoddiad mewn rhwydwaith gan BT a datblygwyr rhwydweithiau eraill.
- 1.17 Mewn ardaloedd cystadleuol posib, rydyn ni'n cynnig peidio â chael prisiau sy'n adlewyrchu costau. Rydyn ni'n credu mai cystadleuaeth yn hytrach na rheoliadau ddylai bennu'r prisiau yn y pen draw. Ond, mewn ardaloedd nad ydynt yn gystadleuol, rydyn ni'n cynnig cyflwyno dull o osod prisiau sy'n seiliedig ar arddull cyfleustodau (cyfeirir at hwn fel dull Sylfaen Asedau Rheoleiddiol (RAB)). Byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i BT y bydd yn adennill costau ei fuddsoddiadau effeithlon yn yr ardaloedd hyn, oherwydd byddai'n rhannu costau ei fuddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr newydd ar draws gwasanaethau eraill yn yr ardaloedd nad ydynt yn gystadleuol.
- 1.18 Rydyn ni'n sylweddoli hefyd y bydd BT am roi'r gorau i ddefnyddio ei rwydwaith copr yn fuan ar ôl cyflwyno rhwydwaith ffeibr. Bydd hyn yn rhoi cyfle i arbed costau a lleihau risg y buddsoddiad mewn ffeibr. I'r perwyl hwn, rydyn ni'n cynnig fframwaith a fydd yn cefnogi BT i symud defnyddwyr o'i rwydwaith copr i'w rwydwaith ffeibr mewn ffordd effeithlon ac amserol.
- 1.19 Yn gyffredinol, rydyn ni'n credu y bydd y dull gweithredu a gynigiwn yn lleihau cryn dipyn ar y risg rheoleiddio a wynebier gan BT. Os derbynnir, ar y dechrau, y bydd y rhwydwaith ffeibr yn disodli'r rhwydwaith copr, ni fydd dim mwy o risg i'r rhwydwaith ffeibr na'r hyn oedd i'r rhwydwaith copr. Ar ben hynny, mewn sefyllfaoedd lle rydyn ni'n rheoleiddio prisiau, byddem yn sicrhau bod BT yn cael cyfle i gael enillion teg ar ei fuddsoddiadau effeithlon (gan gynnwys ei fuddsoddiad mewn ffeibr). Rydyn ni'n credu hefyd bod y dull gweithredu a gynigiwn yn cefnogi buddsoddiad gan gystadleuwyr BT drwy gyfyngu'r dull RAB i ardaloedd lle mae cystadleuwyr yn annhebygol o fuddsoddi ar raddfa fawr ac, yn yr ardaloedd cystadleuol posib, pennu prisiau rheoledig sy'n ystyried costau cystadleuydd wrth ddatblygu rhwydweithiau ffeibr.
- 1.20 Yn olaf, wrth lunio ein hatebion, byddwn yn wynebu rhagor o gymhlethdodau oherwydd buddsoddiadau yn y gorffennol mewn rhwydweithiau llinell ar brydles i ddarparu gwasanaethau i gwmnïau a busnesau mawr. Mae hyn yn golygu, mewn ambell ardal gyfyngedig, rhanbarthau busnes mewn dinasoedd mawr fel arfer, bydd cystadlu ychwanegol i'r hyn a ddarperir gan gwmnïau rhwydweithiau ffeibr newydd. Pan fyddwn yn

## Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr

gweld mai dyma yw'r sefyllfa, byddem yn addasu ein hatebion drwy leihau neu gael gwared ar reoleiddio llinellau ar brydles yn yr ardaloedd penodol hynny yn ôl yr angen.

### Y camau nesaf

- 1.21 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 7 Mehefin 2019.
- 1.22 Rydyn ni'n bwriadu nodi manylion llawn ein cynigion rheoleiddio yn y farchnad telegyfathrebiadau sefydlog, ochr yn ochr â'n dadansoddiad o'r farchnad a chanfyddiadau ynghylch pŵer sylweddol yn y farchnad, ym mis Rhagfyr 2019. Byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wrth lunio'r cynigion hyn.